

Llais y Llan Awst 2016

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 25 Medi 2016
Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol
www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643

Bowlio pob Nos Lun a Nos Iau 7.30 – 9.30 o 1 Medi

Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd

Awst 6 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded Skanda Vale

Awst 10 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Awst 10 Dydd Mercher 12.00 – 5.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Awst 16 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Awst 17 Dydd Mercher Clwb 60+ Taith

Awst 22 Dydd Llyn 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd

Awst 25 Nos Iau 8.00 CCB Clwb Bowlio Mat Byr Llanpumsaint a Nebo Neuadd Goffa

Awst 28 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Medi 1 Nos Iau Clwb Bowlio Mat Byr Llanpumsaint a Nebo Dechrau Tymor Neuadd Goffa

Medi 3 Dydd Sadwrn 11.00 Cerdded Raeadr Ystradfellte

Medi 3 Dydd Sadwrn Skanda Vale 'Sponsored Sky Dive'

Medi 6 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Medi 11 Dydd Sul Taith Maes Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru

Medi 14 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Medi 16 Nos Wener Cyngerdd Chor Ysgol Llanpumsaint Neuadd Llanpumsaint

Medi 20 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Medi 21 Dydd Mercher 12.00 – 5.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Medi 24 Nos Sadwrn 7.30 Cyngerdd gan Gôr Clychau'r Fedwen Llanllawddog

Medi 25 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Medi 25 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Medi 26 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ CCB Neuadd Bronwydd

Medi 30 – Hydref 1 Llandysul a Phonweli Penwythnos Gerdded

Hydref 4 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Hydref 7 Nos Wener 7.30 Swper Cyneuaf Yr Eglwys Neuadd Goffa

Hydref 8 Dydd Sadwrn 10.30 Cerdded Carn Inqli

Hydref 12 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Hydref 15 Nos Sadwrn 'Pure Magic' cyngerdd Neuadd Goffa

Hydref 18 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Hydref 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Hydref 30 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Tachwedd 1 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Tachwedd 26 Nos Sadwrn Côr Llanpumsaint a'r Cylch Meseia Yng Nghapel y Tabernacl

Tachwedd 27 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Tachwedd 27 Nos Sul Cwis Hollybrook

Chwefror 4 Nos Sadwrn Noson Rasys Ceffylau nesa Neuadd Goffa

Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri
I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Derick Lock 01267253524

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Trafodwyd nifer o faterion yn y cyfarfod diweddaraf gan gynnwys trafndiaeth i Skanda Vale, atgyweirio gwarchodfa bysiau, llysiau'r dial y tu ôl i warchodfa bysiau go dderbyn a thafarn y Railwe, ceudyllau ar heol rhiw Graig, diogelwch ar y ffyrdd gan gynnwys y cyfyngiadau cyflymder arfaethedig.

Phillip Jones yw'r clerc a gellir cysylltu ag e' ar 01267 253512 neu clerc@llanpumsaint.org.uk <<mailto:clerc@llanpumsaint.org.uk>>. Gall y trigolion lleol fynychu unrhyw gyfarfod o'r Cyngor.

Trafodir yn bennaf drwy'r Gymraeg ond mae cyfleusterau cyfieithu llawn ar gael

Ceir manylion pellach ar y We <<http://llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/>>

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 6ed o Fedi am wyth o'r gloch. Croeso i bawb.

Cais Cynllunio – w/34056 Gwylfa – Estyniad dau lawr tu cefn

Gofal Traed.

Dyma ddydiadau y 2 clinig nesaf:-

Mercher Awst 10 2016 o 11.00y.b. hyd 4.00 y.p.

Mercher Medi 21 2016 o 11.00y.b. hyd 4.00 y.p.

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789

344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis)

Clwb Gorgant Llanpumsaint

Dyma restr o enillwyr y tri mis olaf yma, dynnwyd gan Bwyllgor Lles ac Adloniant yn ddiweddar -

Mehefin	£20	Rhif. 74	Sarah and Carys Brown
	£10	Rhif 105	Manon Charles
	£5	Rhif. 12	Sarah Moore
	£5	Rhif. 20	Nick Stoneman
Gorffennaf	£20	Rhif 94	Mike and Gillian Poston
	£10	Rhif. 1	Derick Lock
	£5	Rhif. 43	Emma Clift
	£5	Rhif 29	John Richards
Awst	£20	Rhif. 45	Neville Griffiths
	£10	Rhif 95	Bob and Tina Conyard
	£5	Rhif 5	Jan Stoneman
	£5	Rhif 10	Dave (W. D.) Robinson

Bu yna nifer o aelodau newydd eleni ond gallwn dderbyn rhagor - cysylltydd Derek Lock 253524.

Gwasanaeth Swyddfa Bost - gyferbyn â Thafarn y Rheilffordd ar ddydd Mawrth 2.00 -4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 y.h.

Newyddion Skanda Vale

I'n helpi i redeg y fenter gellwch noddi'r Brawd Francis i redeg 10 cilomedr yng nghanol Llundain.

Ewch i <https://www.justgiving.com/fundraising/Brother-Francis-10k>

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Clwb ar Nos Iau y 25ain o Awst yn y Neuadd Goffa. Byddwn yn cychwyn ymarfer unwaith eto ar Nos Iau y 1af o Fedi rhwng hanner awr wedi saith a hanner awr wedi naw yn y Neuadd, ac yna bob Nos Lun a Nos Iau drwy gydol y tymor, a ryr un amserau.

Eleni byddwn yn cystadlu yn Adran Gyntaf o Gynghrair Sir Gar gyda'r ornestau i gychwyn tua diwedd Medi. Unwaith eto mwynhawyd ein Cinio Blynyddol yn Nhafarn y Railwe ac estynwn ein diolchiadau i Jane a Nick. Drwy bleidlais dyfarnwyd Tlws Y Railwe eleni i Barbara Cable, hi oedd Chwaraewr y flwyddyn – llongyfarchiadau Barbara! Os ydych am ymuno a ni coeso, tra'ch boch chi dros 11oed, a chofiwch nad oes angen profiad blaenorol arnoch. Cysylltwch a Derek Lock ar 253524. Bydd hyfforddwy profiadol wrth law i estyn cyngor a rhoi arweiniad. Maen sbri!

Clwb Gwili Chwedeg

Bu'n Haf prysur, wedi bod ar bedwar gwibdaith yn barod gyda'r 5ed ar y gweill. Bydd hon ar y 17eg o Awst yn anelu at Ganolfan Treftadaeth y Rhondda, ac i orffen gyda swper yn Llangennech, yn y Bridge Inn. Mae ein haelodau yn ffodus fod nifer o'r gwibdeithiau yn cael eu noddi gan Gronfa'r Loteri.

Yna yn Awst tro Dr John Walters fydd hi i hel atgofion am hen Gaerfyrddin. Ni fydd gennym siaradwr ym Mis Medi oherwydd dyma pryd cynhelir ein cyfarfod blynyddol.

Gwesty'r Langham yn Eastbourne fydd ein cartref am 5 diwrnod ar daith Mis Tachwedd. Mae lle o hyd i un neu ddau arall ar y bws felly cysylltwch â Glyn Ifans ar 01267 236280 am wybodaeth.

Bellach mae gennym dros gant a hanner o aelodau ac yn dal i ehangu. Y cysylltydd yw Val Giles ar 01267 253194.

Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

Etholwyd y swyddogion canlynol am 2016-7 yng nghyfarfod blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Cadeirydd Elfed Davies 253209

Is-gadeirydd Geraint Hughes 253216

Ysgrifenydd Derick Lock 253524

Trysorydd Geraint Hughes 253216

Swyddog y Wasg Mike Poston 253725

Ymddiriedolwyr eraill - Gwyneth Ayers, Angharad Harding, Bob Jameson, Dylan Jones, Mathew Jones, Pamela Jones, Arwel Nicholas, Gwyn Nicholas.

Swyddog Llogi Derick Lock 253524

Ceidwad allwedd mewn argyfwng Angharad Harding 253529

Taliadau Llogi'r Neuadd – wrth yr awr neu'n rhannol

Y Brif Ystafell - yn ystod yr wythnos - £8

Dydd Gwener a'r penwythnos -- £10

Y Brif Ystafell a'r Gegin -- yn ystod yr wythnos -- £10

Dydd Gwener a'r penwythnos --- £12

Ystafelloedd Pwyllgora -- Bob amser -- £5

Llogi wedi angladd -- £40

Defnydd o'r llwyfan, piano, cyfarpar sain a goleuadau, taflunydd a sgrin, llestri
-- £10 am bob llogid

Mae'r Ymddiriedolwyr yn hapus i gyhoeddi fod Côr Llanpumsaint a'r cylch, dan arweiniad Gwyn Nickolas, i gynnal cyngerdd yn y Neuadd ar Nos Wener y 16eg o Fedi. Bydd tocynnau am £10 ar gael oddi wrth yr Ymddiriedolwyr, a defnyddir yr elw at gynnal a chadw'r Neuadd. Gwyliwch y posteri am ragor o fanylion.

Mae tocynnau "Pure Magic" ar gael am £12.50 oddiwrth Derik Lock yr Ysgrifennydd. Gellir llogi bord 12 person. Bydd y drysau ar agor am 6.30 yh a bydd y cerbyd pysgod a sglodion yno hefyd. Mae'r gyngerdd i ddechrau am 7.30 yh. Gan i'r cyngherddau yma fod mor boblogaidd fe'ch cynghorir i gysylltu â Derik cyn gynted â phosib. Gwnewch y siec yn daladwy i - Neuadd Goffa Llanpumsaint - neu defnyddiwch arian parod.

Blaenrybydd - Noson Rasys Ceffylau nesa' - Nos Sadwrn 4 Chwefror 2017

Dyddiad y Cyfarfod nesaf o Bwyllgor y Neuadd yw Nos Fercher 21ain o Awst am 8 o'r gloch.

Nebo Chapel

Mi fydd y gwasanaethau canlynol yn cael ei gynnal yng Nghapel Nebo:

Medi 4ydd Parch Emyr Evans 2 y.p

11eg Parch John Morgan 10:30 y.b

25ain Cwrdd Diolchgarwch- Parch Illtud Prothereo 5 y.h

Hydref 2il Dr Dai Lloyd 10:30 y.b

16eg Mrs Ann Evans 10:30 y.b

23ain Mr Peter Harries 2y.p

Tachwedd 6ed Mr Wyn Maskell 2 y.p

27ain Parch Andrew Lenny 2y.h

Yn mis Mehefin aethom fel Cymdeithas ar ein trip Ysgol Sul I Gaerdydd, Techniquet I'r aelodau ifanc a trip I'r ddinas I'r oedolion. Roedd y tywydd yn braf, cawsom diwrnod hyfryd.

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint

“Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd”

Rhifau Cyswllt Mrs Eleri Morris 01267 253895

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion am y gwasanethau am fisoedd Awst, Medi a Hydref 2016

Awst Dim cyfarfodydd

Medi 11 Cymundeb am 3.00y.p. Parch Desmond Davies

Medi 25 Cwrdd Undebol yng Nghlawddcoch am 10.30y.b. Parch Gareth Morris

Hydref 9 Cymundeb am 2.00y.p. Parch Wyn Vittle

Hydref 23 Cwrdd Diolchgarwch am 2.00 y.p. Mr Wyn Maskell

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Danny Davies Tryaorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Newyddion o'r Eglwys

Swper Cyneuaf yr Eglwys 7fed Hydref - i ddechrau tua 7.30 yh yn y Neuadd

Neges oddi wrth y Canon Aled W Williams

Ydych chi'n cofio fy ngeiriau 'nol ym Mis Mehefin yn nodi fy sylwadau olaf ar fy amser yma gyda chi? Gyda hynny dyma Esgob Tyddewi yn gofyn i mi barhau yn y swydd am dri mis arall.

Meddyliais yn ddwys cyn ymateb i ofyniad yr Esgob, oherwydd sylweddolaf pa mor rhwystredig gall sefyllfa ansicr fel hyn fod i chwi blwyfolion, yn y tywyllwch ynghlyn a phatrwm y dyfodol. Nid yw'r atebion gennyf fi oherwydd yma i wasanaethu dros dro yw fy swydd. Derbyniais gynnig yr Esgob ac felly byddaf gyda chi hyd y 7fed o Dachwedd.

Wrth dderbyn y cynnig gobeithiaf weld trefn newydd o ofal bugeiliol yn datblygu i'r tair eglwys, cyn gynted â phosib ac er lles pawb. Wrth i'r Esgob Wyn droedio at ymddeoliad ym Mis Hydref dymunwn y gorau iddo ef a Mrs Ifans. Bydd gennym Esgob newydd erbyn y flwyddyn newydd. Mae un o'm Harweinwyr Addoli, sef Shirley Murphy o Fronwydd, yn cychwyn cwrs hyfforddi yn fuan i arwain at ei hordeinio'n llawn. Wrth ddiolch i Shirley am yr hyn a wnaeth i'n heglwysi dymunwn yn dda iddi a'i theulu ar gyfnod cynhyrfus yn eu bywydau. Trist oedd clywed ym Mehefin am farwolaeth Mrs Evelyn Ifans, gwraig y cyn-Archddeacon Alun Ifans, a fu'n gyfaill da i'n heglwysi.

Fel y gwyddoch bu fy ngwraig innau Eirian yn anhwylus am y tri mis olaf yma. Gwerthfawrogwn eich consyrn a'r dymuniadau da ddaeth atom. Dyma restr o'r **Gwasanaethau Diolchgarwch** a drefnwyd -

Medi 30ain – Celynin – 6 o'r gloch -- Y Canghellor Parick Thomas

Hydref 2ail - 9.30 ysb - Llanllawddog -- Y Parch Eled Griffiths

Hydref 7ed - 6.30 y.h - Llanpumsaint -- y Parch Beth Davies

Dyddiad yw nodi - Medi 24ain am 7.30 y.h Cyngerdd gan Gôr Clychau'r Fedwen yn

Llanllawddog. Yr eiddoch yn ddiffuant Aled 01559 395802 pedrbrefi@btopenworld.com

Cór Llanpumsaint a'r Cylch

O ganlyniad i'r perfformiad llwyddiannus o 'r Crucifixion cyflwynwyd siec o £1000 i gynhyrchiolwyr o Ambiwlans Awyr Cymru yn ystod yr ymarfer ar Fehefin 16 2016 yn Neuadd Cynwyl Elfed. Diolch i bawb a gefnogodd.

Ar nos Iau, Gorffenaef 7ed cynhaliodd y Cór Noson o Swper ac Adloniant yn Neuadd Llanpumsaint. Cafwyd ymateb da iawn gyda'r neuadd yn llawn. Diolch am bob cefnogaeth a hefyd diolch arbennig i Steve a Ros Evans, Penbontbren am y bwyd bendigedig. Ar ól y bwyd cafwyd adloniant gan Heledd Evans, Gwyn Morris a Cennydd Jones.

Ar nos Iau Gorffenaef 14eg gwahoddwyd dros 50 o ddysgwyr o Gwrs Haf Prifysgol Llambled i'r Neuadd I Nopson Gymreig. Cafwyd llawer o hwyl yn cyd-ganu a dawnsio a'r dysgwyr i gyd yn werthfawrogol iawn o garedigrwydd y Cór.

Ar hyn o bryd mae'r Cór yn cael seibiant haeddiannol dros yr haf ond dyma rai dyddiadau o weithgareddau y Cór yn ystod y tri mis nesaf.

Medi 16 2016 Cyngerdd yn Neuadd Llanpumsaint gyda Chór Ysgol Llanpumsaint gyda'r elw yn mynd tuag at gynnal a chadw y Neuadd. Cadwch lygad am y posteri o amgylch y pentref.

Tachwedd 26 2016 Bydd y Cór yn perfformio'r Meseia gan Handel yng Nghapel y Tabernacl Caerfyrddin. Ceir rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf o Lais y Pentref.

Os oes unrhyw un a diddordeb i ymuno a'r Cór cysylltwch a Gwyn Nicholas 253686 neu unrhyw aelod o'r Cór.

CYMDEITHAS LLESIANT AC ADLONIAINT LLANPUMSAINT

Rwy'n gobeithio eich bod chwi oll yn cytuno bod y Parc a'r Cae Chwarae yn y pentref yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda ac yn ddi-sbwriel. Mae hynny oherwydd ymrwymiad ymddiriedolwyr y Pwyllgor Lles sydd yn cymryd eu tro wythnosol ar drefn gasglu sbwriel ac i ddau neu dri ymddiriedolwr sydd yn gofalu am dorri'r porfa yn ystod misoedd yr haf.

Beth bynnag, y mae rhai achosion wedi codi yn ddiweddar lle mae 'baw cŵn' wedi cael ei ddarganfod ar un o'r llwybrau ac hefyd gwelwyd un o'r pentrefwyr yn cerdded ci drwy'r parc, er fod yna arwyddion 'Dim Cŵn' yn hollol weledig ar bob un mynedfa i'r cae!

Gallai bwysleisio, os gwelwch yn dda, fod yna ddim caniatad i neb i fynd â chŵn ir parc neu'r cae chwarae. Un rheswm am hyn yw fod baw cŵn yn berygl iechyd, yn enwedig i blant bach. Rheswm arall pwysig yw diogelwch. Mae nifer o achosion wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar o gŵn yn ymosod a'r blant mewn ardaloedd cyhoeddus. Nid ydym eisiau unrhywbeth tebyg i ddigwydd yn Llanpumsaint. Mae hyn yn fwy na digon o reswm, fod yn raid i'r parc a'r cae chwarae i barhau i fod yn ardal 'Dim Cŵn'.

Pamela Jones Cadeirydd, Cymdeithas Llesiant ac Adloniant Llanpumsaint

Cynllun Gwella Trafnidiaeth Llanpumsaint

Mae'r Cynllun ar fin cael ei weithredu, wel y cymal cyntaf beth bynnag, a'r cymal hwnnw fydd yr un amlycaf, a gwneud yn amlwg I yrrwyr cerbydau boed iddynt fod yn gwibio I'r gwaith, yn ffermwyr, lorïau neu gyrrwyr y fan wen, fod Llanpumsaint yn croesawu gyrrwyr sydd yn cadw at y terfynnau! Yn fuan, gwelir arwyddion 40mya newydd yn ymddangos gerllaw Gwarcwm ac yna nifer iach o arwyddion adborth 30mya fydd yn flachio cyflymdra'r cerbyd wrth iddynt deithio heibio Parc Celynin, Bont Newydd a Phant y Celyn. Mae cyflymdra trafniadaeth ar hyd yr heol heibio'r Eglwys wedi gostwng I 20mya rhwng gwaelod Rhiw Cwppers a'r Ficerdy ac heibio'r Ysgol hyd at waelod Rhiw Llandre.

Mi fydde rhagor o balmantau o fantais fawr ond ar hyn o bryd yr unig gamau I ddiogelu cerddwyr yw arafu trafniadaeth, a golyga hyn fod yn rhaid I'r sawl sydd yn cerdded cwn, mynd I'r siop neu yn camu o gwmpas yr ynys werdd yn wylidwrus ac yn ufuddhau I gyngor Côt Priffyrdd os am osgoi damweiniau. Hyd at yma, nid oes cerddwyr wedi derbyn anafiadau er daeth diwedd disymwth I ddau gi a fwrwyd gan drafniadaeth.....Mae'r gwaith o wneud y pentref yn fwy diogel I gerddwyr wedi cychwyn, ond mae llawer mwy I wneud eto!

Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru – rhaglen y dyfodol

Dim cyfarfod ym Mis Awst

Sul - Medi 11eg Taith i Gylch Iachusol Gors Fawr

Sul – Medi 25ain: Ian Pegler – the Crow Line: Ancient Astronomy and the Welsh Grail

Sul – Hydref 23 – Tanya Peterson - Cinesioleg

Sul – Tachwedd 27ain – Ros Briagha – (testun i'w gadarnhau)

Mae dewinio yn ymarfer hynod o ddiddorol, a hawdd ei ddysgu gwnaeth darddu o'r Aifft. Dewisa nifer o gwmnïau ddefnyddio dewinwyr i ganfod mwynau, olew a gwifrau trydan. Dewinia rai pobl am ddiogelwch eu bwyd ac am straen geopathic yn eu hamgylchfyd, ond hyd yn hyn agwedd bersonol yw heb gadarnhad gwyddonol. Dewch atom i Neuadd Bronwydd am 1.45 y.p, ac am £4 cewch baned i'r fargen. Does ddim angen cyfarpar felly cysylltwch â Sandy ar 01267 253547.

Sŵn Cwn yn Cyfarth

Yn yr haf gyda ffenestri a drysau ar agor a phobl yn eu gerddi mae sŵn cyfarth yn fwy amlwg. Mae ambell gyfarthiad yn dderbyniol ond peri cyfarth di-ben-draw aflonyddwch i eraill, heblaw am gyhoeddi nad yw'r ci'n hapus. Felly cymerwch ofal o'ch cwn.

Codi Arian Hawdd Os ydych yn siopa ar y We yna gallwch helpi i godi arian i'r ysgol drwy gofrestri ar www.easyfundraising.org.uk/causes/LlanpumsaintPTA neu gysylltu ag Emma Brown

Llyfrgell Deithiol - Bob 4 wythnos, fl gael ffôn 01267 224830

Teithiau i'w cofio

Daw i gof daith a drefnwyd o ardal Capel Mair, Pentre-cwrt dan nawdd yr Eglwys yng Nghymru yn 1970au, a honno'n daith gerdded ar hyd arfordir Sir Benfro, â'r Canon Stuart Bell a'i 'PATHFINDERS' yn ein harwain. Aethom ar fws i Draeth Mawr ac ymlaen i Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Bu'n ddiwrnod arbennig, wedi ei drefni'n hwylus dros ben gan aelodau eglwysig, gyda llu o glybiau ieuenctid yr esgobaeth. Rhaid diolch i David Davies am ei ofal cymorth cynta', gyda chefnogaeth Marian, Val ac Ann Jones. 'Roedd y tywydd yn braf i ryfeddu, a phawb wedi mwynhau'r picnic a'r cymdeithasu â ffrindiau o bell ac agos. Cafwyd swper yn Sir Benfro cyn troi am adref. Diwrnod bythgofiadwy! Faint ohonoch oedd yno tybed!

Mae'r Pathfinders yn trefnu teithiau cerdded i ardaloedd eraill hefyd, er enghraifft Mwnt. Daw ein haelodau o Langelier Penboyr, Siloh, Llandysul a Llanpumsaint, ac fel arfer dechreuir pob taith gyda gweddi. Cofio un daith dros fynydd Llanllwni pan ymunodd dau frawd a ni o ardal Llanpumsaint. Un tro death Dr Selcon i Ysgol Brynsaron i 'n cynghori ar gymorth cynta', Dyna'r cyfnod pan adawyd holl ietau'r caeau ar agor i'r dyrfa fawr.

Cofiaf am yr achlysur pan fu taith o amgylch ysgol ac ardal y bardd T. Llew Jones ym mhlwyf Llangeler ac ardal Capel Mair yn arbennig. Wrth ddilyn llwybrau bore oes y bardd yng nghyffiniau Pentre-cwrt clywsom am ei addysg yn ysgol yr Eglwys, a'i gyfeillgarwch â bechgyn Maes yr Afon yn arbennig. Profasom yn ogystal y golygfeydd godidog o gopa Castell Capel Mair, a gwlad Sir Aberteifi oddi amgylch ar ei gorau. Wedi i'r bardd dalu teyrnged i 'Goleg Capel Mair' fel y cyfeiriodd at ei hen ysgol, daeth ein hymweliad i derfyn gyda T. Llew ei hun yn adrodd, o ben Castell Capel Mair "Fuooh chi yng Nghwm Alltcafan.....?"

Erys y profiad yn hir yn y cof!

Ann Jones, Llanpumsaint

Clwb Llandysul a Phontweli yn croesawu cerddwyr

Penwythnos Gerdded 30ain o Fedi i'r 1af o Hydref

Bydd yna dair gradd o gerdded bob dydd --

Rhwydd – addas i bawb nad ydynt yn ffaledig

Hamddenol – addas i bawb sy'n weddol heini gan gynnwys rhai llwybrau

Cymedrol - addas i rai sy'n eitha' heini ac yn gallu cerdded yn gyflym ar hyd llwybrau serth ac ar draws caeau.

Ewch fan hyn am wybodaeth fanwl -

<http://llandysul-ponttyweli.co.uk/index.php/en/walking-weekend-2016.html>

Rheilffordd Nosweithiau Arbennig

Bydd Jayne a Nick yn cynnal Noson Stêc i 2 bob dydd Mercher - 2 x10oz Celtic Pride stêc ffolen gyda sglodion cartref a garnais salad a photel o win tŷ; am £30 y cnpwl. Ffoniwch y Rheilffordd ar 01267 253643 i archebu.

Newyddion o Safonau Masnachu Sir Gar

Mae tîm Safonau Masnach Sir Gaerfyrddin yn rhybuddio pobl i wyllo rhag sgamwyr, ac yn gofyn i bobl ofalu am les perthnasau, cymdogion a ffrindiau oedrannus. Yn Sir Gaerfyrddin mae'r tîm wedi delio â thwyll gwerth miloedd o bunnoedd yn y 12 mis diwethaf yn unig – yn bennaf yn ymwneud â phobl hŷn a phobl sy'n fregus o achos salwch.

Mae preswylwyr yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu rhybuddio i fod yn ymwybodol o geisiadau twyllodrus am arian a ddaw trwy'r post ac e-bost, neu dros y ffôn. Ymhlith yr enghreifftiau mae rafflau ffug, cyfleoedd ffug i fuddsoddi a sgamiau proffwydo neu ddêtio.

Y cynghorion gorau ar gyfer osgoi sgamiau

- Os yw'n gynnig rhy dda i'w gredu... peidiwch â'i gredu
- Os nad ydych wedi prynu tocyn – allwch chi ddim enmill
- Ni ddylech orfod talu unrhyw beth i gael gwobr
- Os oes amheuaeth, peidiwch ag ateb. Rhowch ef yn y bin, ei ddileu neu roi'r ffôn i lawr
- Cysylltwyd â chi'n ddirybudd? – byddwch yn ofalus.
- Gan bwyll bach – does dim angen rhuthro i wneud penderfyniad dan bwysau.
- Peidiwch byth ag anfon arian at rywun nad ydych wedi cyfarfod â nhw erioed.
- Anwybyddwch hysbysebion swyddi sy'n gofyn am arian o flaen llaw.
- Ni fydd eich banc byth yn dod i'ch cartref i nôl arian parod, eich rhif PIN, eich cerdyn banc neu lyfr siec os ydych wedi cael eich twyllo.
- Ni fydd eich banc byth yn eich ffonio i ofyn am eich PIN neu gyfrinair eich cyfrif banc ar-lein.
- Ni fydd eich banc byth yn gofyn ichi drosglwyddo arian i gyfrif banc newydd oherwydd bod twyll wedi digwydd. Amau bod twyll wedi digwydd dros y ffôn? Rhowch y ffôn i lawr, arhoswch bum munud i glirio'r llinell neu defnyddiwch ffôn arall i ffonio'ch banc.
- Ni fyddai cwmnïau cyfrifiadurol go iawn yn gwneud galwadau ffôn di-ofyn i'ch helpu chi i drwsio'ch cyfrifiadur.
- Peidiwch â dioddef yn dawel – soniwch am sgamiau.

Mae Safonau Masnach wedi gweld cynnydd mewn troseddau ar drothwy'r drws hefyd. Mae enghreifftiau'n cynnwys cymryd arian am waith diangen neu waith na chwblhawyd, neu lle bo'r tâl y gofynnir amdano yn afresymol.

Amddiffyn eich hun rhag dioddef trosedd ar y trothwy:

- Peidiwch â llofnodi yn y fan a'r lle
- Gofynnwch bob tro am garden adnabod a chwiliwch am fanylion y sefydliad i gadarnhau pwy yw'r gwerthwr
- Peidiwch â chael eich twyllo gan gleber gwerthu neu dechnegau gwerthu sy'n rhoi pwysau arnoch
- Chwiliwch bob amser am y pris gorau
- Darllenwch y print mân a gwirio'r ffeithiau
- Siaradwch â rhywun y gallwch ymddiried ynddo i gael barn arall
- Peidiwch â rhoi arian i neb cyn i'r gwaith ddechrau
- Meddylwch yn ofalus iawn cyn cytuno bod masnachwr yn dechrau unrhyw waith ar unwaith
- Dilynwch eich greddf – os yw'n swnio'n rhy dda i'w gredu, peidiwch â'i gredu!
- Mae'n iawn dweud 'NA'. Cofiwch, chi sy'n byw yno a chi biau'r penderfyniad. Os ydych yn teimlo dan bwysau am unrhyw reswm, gofynnwch i'r unigolyn adael

Os ydych yn amau bod rhywbeth yn sgam neu os ydych yn adnabod rhywun sydd wedi dioddef sgam/trosedd ar y trothwy, rhowch wybod os gwelwch yn dda drwy ffonio Llinell Gymorth

Cyngor i Ddefnyddwyr – 03454 04 05 06 – neu ewch i

<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/safonau-masnach/>

Colli mab y ffatri a'r mab ffarm - Teyrnged i Elfyn Lewis a John Bowen

O fewn ychydig dros wythnos ym Mis Mawrth 2016 collodd ardal Llanpumsaint ddau gymeriad direidus, un yn ddoniol ar lwyfan ar llall yn ddoniol bob dydd. Yr oedd Elfyn Lewis Glanryrnys a John Bowen Glannant yn honni o deuluoedd a'u gwreiddiau'n ddwfn yn y filltir sgwâr. Er bod deng mlynedd rhyngddynt, aethant i'r un ysgol leol dan adain yr enwog Jack Johns. Mewn oes pan oedd plant yn cerdded i'r ysgol profodd y ddau holl gyfoeth y chwarae a'r drygioni diniwed fu'n batrwm hapus i blant y wlad ar hyd yr heolydd tawel.

Un o Lewisiaid ffatri wlân Glanryrnys oedd Elfyn, ac yn perthyn i Mali Lloyd y Swyddfa Bost. Wedi gadael ysgol denwyd ef i'r byd electroneg i ddatblygu'n brif dechnegydd i Bencadlys yr Heddlu yng Nghaerfyrddin. Ond fel comediwr ar lwyfannau led- led Cymru y cofia'r werin amdano, gyda'i bortreadau byw o'r *Dyn Meddw*, *Y Plymer*, a throeon trwstan y boi bach aeth ar ei wyliau i *Eastbridge*. Daeth i amlygrwydd wrth ennill cystadleuaeth Opportunity Knocks ym Mhontrhydfendigaid, wrth ddod yn gyntaf allan o chwe deg cystadleuydd, "...Ni allai neb llai na chwethin ar ben. talent arbennig y gŵr yma!", medde'r wasg. Aeth ymlaen i ymddangos ar Nosweithiau Llawen diri ac ar y teledu hefyd. Ym myd y ddrama daeth yn aelod blaenllaw o Gwmni'r Dewin dan arweiniad Jim Parcnest. 'Roedd yn aelod o gast *Wrth Aros Godot* pan gipiodd Cwmni'r Dewin y brif wobwr Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979.

Rhaid peidio anghofio ei gyfraniadau cyson gweithgar ac eang i'w ardal enedigol chwaeth! Bu'n aelod o Bwyllgor Lles Llanpumsaint am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac yn Drysorydd hir amser i Bwyllgor y Neuadd a Chapel Caersalem. 'Roedd Elfyn yn un o hoelion wyth ei gapel, yn weithgar a hael ei amser at bob math o alwadau. Dyma ddyn y cymwynasau; dreifio sawl un i weld doctor, lift i'r llall ar ryw neges,' nol rhywbeth o'r siop i'r anghenus, gwneud yn siŵr fod claf yn cyrraedd apwyntiad ysbyty, neu ateb galwad am help yn y Neuadd. Ta beth a phryd deuai galwad, bydde Elfyn byth yn dweud na; dyna pam anrhydeddwyd ef am wobwr Halen y Ddaear gan S4C.

John oedd y pumed o ddeg o blant fferm yr Esgair, yr hynaf o'r bechgyn ond yn dilyn pedair chwaer yn hyn nag 'e. Daeth bechgyn Alltgaredig ac eraill yn gymdogion a ffrindiau ysgol iddo, i fwynhau lot o sbri. Yn dilyn prentisiaeth dan law ei gefnder Harri Bowen datblygodd ei ddiddordeb a'i allu mewn peiriannau yn gyflym a chyn hir mentrodd yn llwyddiannus i'r byd busnes. Enillodd barch ei gydweithwyr, oherwydd ni roddai jobyn i neb nad oedd e'n allu ne'n fodlon gwneud ei hunan. Yn ôl Martin Blaenpant, "*Boi caled ond boi fair!*". Medde Ifan JCB, "*Os caf i John Esger wrth fy ochor bydd dim ishe JCB arnai!*". Enillodd edmygedd Mike Roberts am feithrin talentau rhai ifanc, ac ychwanegodd mai John oedd wedi dysgu popeth am beiriannau iddo. Er hynny byddai'n rhaid i bob prentis gyfarwyddo a thafodiaith unigryw mab Yr Esgair! "*Cer i nôl hwnna, mae e' draw fanco ar bnys hwnco manco, ar y bench!*". Yn ei gap a'r oferals unigryw, hir a dwys fu'r trafodaethau peirianyddol rhyngddo a'i gyfaill Elvet Cwar Nymber Wan. O lendid yr iard yng Nghlannant ffynnodd y Cwmni Adeiladu gyda'i fab Daniel.

-Ymysg ei ddiddordebau hamdden gwelwyd e'n hela cwingod ar hyd hen lwybr y rheilffordd gyda Gwenno'r ast. Rhaid cofnodi hefyd i John West bysgota yn ôl yr hen

draddodiad lleol, ond heb lwc bob tro. Cafodd lot o bleser yn dilyn y Sels, gyda Martin, Howard a John Frongoch, a chefnogi'r Sioeau gyda Lewis, Dai Twm a Philbo. Wrth brynu teclyn byddai John wastad yn dod 'nôl a dau, cadw un sbâr ontife! Ond heb anghofio'r teulu, Nan, Daniel ac Eirian, rhaid llwytho'r car a'r ford a'r twls i gyd, a bant am bicnic i Sir Benfro ar brynhawn Sul.

Enw answyddogol yr heol o bont y rheilffordd yn Llanpumsaint tua Ffynnonhenri yw Bangal Road, am ryw reswm. I'r Cymry sydd ar ôl, bydd yn chwith pasio Glanryynys heb droi i mewn am ddifyrrwch a chroeso Elfyn a Hett. Chwarter milltir arall down at Lannant, eto ar y dde; ac er y gwelwn y car Skoda ar y clos, ni allwn droi i mewn i fwynhau rhialtwch gwreiddiol John mwyach. Er y golled erys yr atgofion. Arwyn 2016

Clwb Cerdded Llanpumsaint

Ar ddydd Sadwrn, Awts 6ed am 2.00y.p. fe fyddwn yn cerdded o'r pentref a'r tro hyn i Skanda Vale. Yn dechrau o Dafarn y Rheilffordd a cherdded tuag at Landysul, troi i'r dde (ar bwys Tegfan) a cherdded ymlaen o dan pont y rheilffordd a thrwy'r caeau i'r heol sydd yn arwain i Skanda Vale. Mae yn daith tua 5 milltir. Wedi dychwelyd i'r pentref fe fydd bwyd ar gael yn Nhafarn y Rheilffordd.

Trefnwyd dwy daith gyffroes gogyfer a'r ddeufis nesaf

Bydd y cyntaf yn cychwyn o Raeadr Ystradfellte am 11 y bore ar y 3dd o Fedi. Mae'n weddol hawdd o'r maes parcio ar hyd llwybr yr Afon Fellte. Awn heibio i ddwy o'r prif raeadrau, Sgwd Clun Wyn a Sgwd Isaf Clun Wyn, cyn cyrraedd uchafbwynt y daith yn Sgwd yr Eira. Yma gellwch droedio'n fentrus y tu ôl i'r rhaeadr: er yn llithrig bydd yn werth y profiad o weld y twr yn disgyn o'ch blaenau. Cofiwch gario bwyd gyda'ch a gwisgo esgidiau.

Ar yr 8fed o Hydref byddwn yn anelu at gopa Carn Ingli o Drefdraeth. Lleoliad y parcio bydd ar y chwith o'r Stryd Hir, a byddwn yn bwriadu cychwyn oddi yno am hanner awr wedi deg y bore. Unwaith eto dewch a lluniaeth gyda'ch chi a gwisgwch esgidiau addas. Wedi rhyw 4 awr o gerdded edrychwn ymlaen at baned o de 'nol yn Nhrefdraeth.

Rhowch wybod i Kay Bowen os ydych yn bwriadu dod ar y teithiau fel bod modd rhannu ceir kaybowenis@gmail.com ein hysgirfenyddes ar 07766 105122.

Heddlu

Rwyf dal yn gweld llawer iawn o faw cŵn yn y pentref a'r cyffiniau. Rwyf wedi gofyn i bob perchennog a cherddwr ci i lanhau'r baw y mae eu cŵn yn gadael, ond mae hyn dal yn digwydd. Byddaf yn cysylltu â'r Adran Iechyd yr Amgylchedd a fydd yn symud y mater yn ei flaen. Oherwydd y tywydd braf hafaidd rydyn ni'n mwynhau ar hyn o bryd, fe'ch atgoffaf y byddwn ni'n gweld cynnydd yn nifer y cerbydau amaethyddol ar y ffyrdd wrth iddynt geisio casglu cnydau rhwng y glaw. Byddwn ni'n monitro safonau gyrru a'r defnydd o ffonau symudol, ond gofynnaf i chi fod yn amyneddgar os ddewch chi ar draws cerbydau mawr araf a gweithio hwyr wrth gynaeafu. Rydw i dal yn chwilio am aelodau o'r gymuned i gymryd rhan yn y cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned rydyn ni'n ceisio lansio yn y pentref. Cysylltwch â mi os gwelwch chi'n dda oherwydd mae angen 3 neu 4 aelod arall arnom i'w wneud yn effeithiol. Anfonwch e-bost ataf ar martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk neu rhowch alwad imi ar 101est 25342 er mwyn trafod.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â mi ar 101 est 25344 neu drwy e-bost ar martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk.

Village Voice

August 2016

Copy Date for next Edition 25th September

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Monday and Thursday from 1 September 7.30 – 9.30 Bowls at Memorial Hall

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

August 6 Saturday 2.00 Walk up to Skanda Vale from Railway Inn, 2.00pm

August 10 Wednesday 12 – 5pm Foot Clinic Memorial Hall

August 10 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – 253643 to book

August 16 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

August 17 Wednesday 60+ Trip to Rhondda Heritage Centre

August 22 Mondau 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

August 25 Thursday 8.00 AGM Bowls Club Memorial Hall

August 28 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

September 1 Thursday Bowls Season Starts Memorial Hall

September 3 Saturday 11.00 Waterfall Walk Ystradfellte

September 3 Saturday Skanda Vale Sponsored Sky Dive

September 6 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

September 11 Sunday Field Trip West Wales Dowsers

September 14 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – 253643 to book

September 16 Friday 7.30 Concert with Choir of Llanpumsaint School

September 20 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

September 21 Wednesday 12 – 5pm Foot Clinic Memorial Hall

September 24 Saturday Concert with Côr Clychau'r Fedwen at Llanllawddog Church

September 25 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

September 25 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

September 26 Monday 2.00 60+ Club AGM Bronwydd Hall

September 30 – 1st October Walking Weekend Llandysul

October 4 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall
October 7 Friday 7.30 Harvest Supper Memorial Hall
October 8 Saturday 10.30 Walk to Carn Ingli from Newport
October 12 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – 253643 to book
October 15 Saturday ‘Pure Magic’ Concert Memorial Hall
October 18 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn
October 23 Sunday 1.45 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall
October 30 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn
November 1 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall
November 26 Saturday Messiah with Llanpumsaint & District Choir Tabernacle Chapel
November 27 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall
November 27 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn
February 4 Saturday Race Night Neuadd Goffa.

Llanpumsaint and Ffynnonhenry Memorial Hall

To book phone Derick Lock on 253524

Llanpumsaint and Nebo Bowling Club

The Club’s Annual General Meeting will take place on Thursday 25th August at 8.00pm in the Memorial Hall.

Members get back in training in the Memorial Hall on Thursday 1st September from 7.30pm to 9.30pm, and thereafter every Monday and Thursday through the short mat bowling season at the same times.

The Club is in the First Division of the Carmarthenshire Short Mat Bowling League, and the first match of the season will take place towards the end of September.

The Club once again held it’s Annual Dinner at the Railway Inn, Llanpumsaint, and our thanks go once again to Jayne and Nick for such an enjoyable evening.

The Railway Inn Trophy awarded to the player voted ‘Player of the Year’ was won this season by Barbara Cable. Well done Barbara, and well deserved.

Anyone interested in joining the club, no experience required or age limit (provided you are over 11), please contact Derick Lock on 253524. Experienced, qualified coaches are always on hand to give advice and it really is great fun too!!

Noise from Dog Barking

In the summer, noise from dogs barking is more evident, with windows open and residents enjoying the fine weather in the garden. No-one minds dogs barking to welcome visitors, or for short periods, but incessant barking can be very annoying. And it can indicate that the dog is not happy, and perhaps needs some attention.

So, if you have dogs, please ensure that they do not bark incessantly – especially overnight.

LLANPUMSAINT WELFARE AND RECREATION ASSOCIATION

I hope you all agree that the Park and Playing Field in the village is well kept and litter free. That is due to the commitment of Welfare Trustees who take their weekly turns on a litter picking rota and to a couple of trustees who look after the grass cutting during the Summer months.

However, there have been a few issues recently where 'dog mess' has been discovered on one of the footpaths and also, a villager has been seen walking their dog through the park, even with the 'No Dogs' signs visible at each and every entrance!

